YMGYNGHORIAD GAN S4C

GWASANAETHU PLANT YN Y DYFODOL DIGIDOL

SYLWADAU GAN NUT CYMRU

Y mae'n bleser gennym gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr uchod.

Yr oedd yn amlwg yn y cyfarfod yngynghorol gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm ym mis Mehefin fod yna groeso brwd i'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen. Gallwn ategu ein bod ninnau hefyd, fel undeb, yn eu cymeradwyo.

Cwestiwn 1

Credwn, felly, y bydd gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn Gymraeg i blant.

Cwestiwn 2

Awgrymir yn y ddogfen, ac ategwyd hyyny yn y cyfarfod, y byddai'r gwasanaeth, yn unol â'r arfer a'r disgwyl, yn sicrhau taflen amser i gydfynd ag oedran y plant a'r oriau y disgwylir iddynt fod yn yr ysgol. Felly, er enghraifft, rhaglenni ar gyfer plant meithrin yn unig fyddai yn cael eu darlledu yn y bore ac yn gynnar yn y prynhawn a'r rhai mwy addas ar gyfer plant hŷn yn ddiweddarach ac ar ôl, neu efallai cyn, oriau ysgol. Doeth yw'r awgrym y byddai'r pwyslais ar ddarlledu rhaglenni ar gyfer plant hŷn a'r rhai yn eu harddegau yn ystod y penwythnos.

Mae'r ddogfen yn cynnwys yr awgrym y byddai'r patrwm darlledu yn wahanol yn y gwyliau. Mae hynny'n ddigon teg ond cytunwn, hefyd, fel yr awgrymwyd yn y cyfarfod, mae annoeth fyddai newid yr oriau yn rhy fympwyol gan y byddai'r siom o ganfod nad oedd y rhaglen ddisgwyledig (ac efallai'n ffefryn) ddim ar gael ar yr amser arferol yn gallu achosi diflastod ac amharodrwydd i edrych eto, yn enwedig yn achos y plant iau.

Cwestiwn 3

Y peth pwysicaf yw cofio ei bod yr un mor bwysig i raglenni i blant fod o ansawdd uchel â rhaglenni i oedolion.

Cwestiwn 4

Mi fyddai'n biti mawr colli sianel S4C2, sy'n darlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol. Tybed, fel rhyw fath o gyfaddawd, y gellid rhoi dechrau ar y gwasanaeth i blant ar y gofod sbâr rhwng 06.00 a 12.30 ac yna ar S4C2 wedi 18.00 tra'n ceisio trydydd parti fyddai'n fodlon darparu cludiant ar gyfer trafodion y Cynulliad. Gellid wedyn symud at ddarpar oriau ychwanegol ar gyfer plant. Efallai fod rhesymau technegol, y tu hwnt i ddirnad yr undeb, yn gwneud hyn yn anodd neu'n amhosibl.

Cwestiwn 5

Gall eraill gynnig gwell cyngor.

Cwestiwn 6

Nodwn fod y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn y rhestr o Randdalwyr Allweddol. Bydd hwn bellach yn rhan o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd fydd yn cwmpasu maes llawer ehangach. Fel arall, byddem wedi awgrymu y dylid hefyd ychwanegu y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd at y rhestr.

Cwestiwn 7

Dymunwn rwydd hynt i'r fenter. Mae'n bwysig cael darpariaeth adloniant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant yn ogystal a darparieth addysg.

NUT Cymru
Gorfennaf 2007